Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Celfyddydau, Iechyd a Lles

## Rhaglen Ariannu'r Celfyddydau drwy'r Loteri Genedlaethol

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys

Croeso ........ 3
Y cyd-destun ........ 4
Cyrhaeddiad ac effaith ........ 5
Am y gronfa ........ 5
Dyma'r mathau o brosiectau rydym ni am eu hariannu ........ 6
Pwy all wneud cais? ........ 8
Am faint allwch chi ymgeisio? ........ 9
Pa gam y mae'ch prosiect wedi'i gyrraedd? ........ 10
Beth yw'r meini prawf? ........ 12
Pa gwestiynau fydd? ........ 13
Cymorth a chyngor ........ 16

## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddarllen ac Arwyddeg. Byddwn ni hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd ac yn ystyried gwneud cais, gallwn eich helpu yn ystod y broses. Cysylltwch â ni yn grantiau@celf.cymru i drafod sut. Rydym ni'n gweithredu polisi cyfle cyfartal.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

## Beth os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol?

Os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol am unrhyw reswm, uwchlwythwch lythyr gyda'ch cais ar-lein yn esbonio pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o ffynonellau eraill.

# Croeso

## Croeso i'n rhaglen ariannu dryw'r Loteri Genedlaethol i'r Celfyddydau, Iechyd a Lles.

Dyma'r holl wybodaeth am lunio eich cais. Dylech hefyd ddarllen ein nodyn cyfarwyddyd, Arian y Loteri Genedlaethol: beth sydd angen ichi ei wybod wrth ymgeisio. Yno mae'r wybodaeth am ein blaenoriaethau, cymhwysedd, costau priodol a'r cymorth ychwanegol sydd ar gael. Darllenwch y canllawiau yn gyntaf ichi lunio'r cais gorau y gallwch.

Yn gyntaf, pa fathau o brosiectau rydym ni'n chwilio amdanynt?

Nod y rhaglen yw cefnogi partneriaethau o bob rhan o'r celfyddydau, iechyd, byd natur, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gynnal prosiectau creadigol o safon sy'n rhoi manteision iechyd a lles i bobl Cymru.

# Y cyd-destun

## Mae pawb yn cydnabod cyfraniad gwych y celfyddydau o ran gwella iechyd a lles.

Ers inni gyhoeddi ein hastudiaeth a oedd yn mapio'r celfyddydau ac iechyd yng Nghymru yn 2018, rydym ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes iechyd i archwilio sut y gall gwneud pethau creadigol adeiladu Cymru iachach.

Roedd ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chydffederasiwn GIG Cymru yn fodd i gymryd camau breision ymlaen. Gyda'n gilydd rydym ni wedi gweithio gyda Byrddau Iechyd ledled Cymru, gan gydariannu swyddi Cydgysylltwyr y Celfyddydau ac Iechyd, i ddatblygu rhagor o gysylltiadau â'r celfyddydau.

Mae Grŵp Trawsbleidiol Senedd Cymru ar y Celfyddydau ac Iechyd yn codi proffil y gweithgarwch yn wleidyddol. Mae twf cyflym Rhwydwaith Iechyd a Lles Celfyddydau Cymru hefyd yn sbarduno cynnydd ar lawr gwlad drwy ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd rhwydweithio a rhannu astudiaethau achos a'r arfer gorau ledled Cymru.

Roedd ein partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a Nesta drwy'r rhaglen Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil, Pobl yn 2020-2022 yn canolbwyntio ar gefnogi arloesedd ac ymchwil yn y Celfyddydau ac Iechyd. Roedd Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil, Pobl yn archwilio sut y gallwn gynhyrchu arloesedd creadigol sy'n effeithiol wrth gefnogi iechyd a lles pobl Cymru. Mae canfyddiadau ac argymhellion y rhaglen wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y rhaglen ariannu hon.

Mae sefydliadau celfyddydol, artistiaid ac ymarferwyr unigol, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd ledled Cymru yn parhau â mentrau a rhaglenni gwreiddiol i ddatblygu'r maes. Maent yn gwella'r canlyniadau i gleifion mewn ffyrdd cyffrous.

Ond rydym ni'n cydnabod bod angen arian ar lawer o'r rhaglenni i ymateb i anghenion sy'n newid. Mae ein rhaglen yn cefnogi'r gwaith a phrofi syniadau newydd.

## Cyrhaeddiad ac effaith

Mae prosiectau'r Celfyddydau ac Iechyd yn cyrraedd ystod eang o bobl, yn aml yn cyffwrdd â chymunedau nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad rheolaidd â'r celfyddydau. Yn aml, mae'r prosiectau o fudd i rai o'r bobl fwyaf ymylol a bregus yn ein cymuned. Rydym ni am adeiladu ar hyn a chael ystod ehangach, fwy amrywiol fyth o bobl, i brofi manteision y celfyddydau.

Rydym ni am adeiladu ar ein sylfeini cadarn a datblygu'r gwaith, er bod hwnnw'n esblygu o hyd. Ond mae heriau a chyfleoedd cynyddol yn deillio o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol a'r argyfyngau hinsawdd a natur, a hynny'n golygu bod yn rhaid i ni wneud mwy fyth, hyd yn oed.

## Am y gronfa

- Mae'n cefnogi partneriaethau o sefydliadau ar draws y celfyddydau, iechyd, byd natur, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Mae'n cefnogi prosiectau creadigol o safon sy'n sicrhau manteision iechyd a lles i bobl Cymru.
- Mae'n cefnogi ein blaenoriaethau sydd yn ein cynllun corfforaethol, "Er Budd Pawb" o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg.
- Mae'n dangos ein hymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru.
- Gallwch ofyn am swm rhwng £500 a £50,000, yn dibynnu ar ba gam y mae'ch prosiect wedi'i gyrraedd.
- Rhaid i brosiectau gynnwys partneriaeth o sefydliadau ond rhaid i un ohonynt arwain y cais. Rhaid iddo fod yn sefydliad cymwys. Gallwch weld beth mae hyn yn ei olygu yma.

# Dyma'r mathau o brosiectau rydym ni am eu hariannu

## Sut olwg sydd ar brosiect da?

### Artistig, bywiog a pherthnasol

Rydym ni am ariannu prosiectau sy'n fywiog yn artistig ac yn berthnasol i'r blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym ni am i'r gweithgarwch celfyddydol gael y cyfle gorau i ymsefydlu a bod yn gynaliadwy. Rydym ni am iddynt wneud gwahaniaeth i'r cyfranogwyr, y cleifion a'r staff gofal iechyd sy'n ymwneud â nhw.

Mae hyn yn gofyn am bartneriaethau ar draws y sector. Rydym ni am gefnogi syniadau newydd a modelau llwyddiannus sy'n barod i'w cynyddu mewn maint a'u cynnal. Mae gennyn ni ddiddordeb arbennig mewn prosiectau sy'n ceisio ymyrryd mewn ffordd a fyddai'n atal salwch, a phrosiectau sydd â dau nod, sef gwella iechyd a lles bobl ar y naill law, ac ar y llall, cryfhau eu cysylltiad â byd natur drwy greadigrwydd.

### Partneriaethau cryf

Partneriaethau cryf sy'n allweddol. Rydym ni am ariannu prosiectau sy'n cynnwys cydgynhyrchu rhwng partneriaid celfyddydol ac iechyd (a byd natur os yw hynny'n berthnasol). Dylai eich prosiect ddangos bod swyddogaethau a chyfrifoldebau clir a bod ymrwymiad a chefnogaeth o'r ddwy ochr.

## Gwerthuso

Tystiolaeth sy'n llywio iechyd, felly mae gwerthuso'n bwysig. Rhaid ichi ein hargyhoeddi bod gennych gynllun gwerthuso cryf sy'n cael ei adlewyrchu yn eich cyllideb. Dylech ddyrannu o leiaf 10% o'ch costau cyffredinol i werthuso. Efallai y byddwch chi am weithio gyda phartner ymchwil/academaidd/gwerthuso neu neilltuo eich amser i ymgymryd â'r gwerthusiad.

Rhaid gwybod am y dystiolaeth bresennol sydd i'r gwaith a sut y gallai eich gwaith gyfrannu ati. Buom ni'n gweithio gyda Rhwydwaith Iechyd a Lles Celfyddydau Cymru ac wedi mabwysiadu eu dull o gyflwyno Astudiaeth Achos. Byddwn ni am gael astudiaethau achos fel rhan o'r Adroddiad Diweddu y bydd yn rhaid ichi ei gyflwyno ar ôl y prosiect.

## Themâu a blaenoriaethau brys

Mae'r maes iechyd yn enfawr, ond mae'r pandemig yn codi blaenoriaethau brys. Mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Rydym ni'n croesawu pob syniad am weithgarwch celfyddydol o safon, yn enwedig prosiectau creadigol sy'n mynd i'r afael â'r problemau yma:

- **Iechyd meddwl** – gan gynnwys unigrwydd/bod yn ynysig a rhagnodi cymdeithasol sy'n meithrin gwytnwch ac iechyd meddwl da.
- **Anghydraddoldeb iechyd** – prosiectau sy'n dod â manteision iechyd a lles i bobl o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys pobl Fyddar ac anabl, pobl niwroamrywiol, pobl ethnig a diwylliannol amrywiol a'r rhai yr effeithiwyd yn andwyol ar eu hiechyd a'u lles gan dlodi. Rhaid cydnabod y ffactorau ehangach sy'n arwain at ganlyniadau iechyd anghyfartal – yn economaidd-gymdeithasol, addysg, swyddi, incwm a thai. Rydym ni am ariannu prosiectau sy'n mynd i'r afael â hyn.
- **Iechyd corfforol a lles** – prosiectau sy'n cefnogi gwell iechyd corfforol neu'n cadw pobl yn gorfforol egnïol.
- **Lles staff** – yn y gweithlu gofal iechyd a/neu'r celfyddydau.
- **Byd natur** – prosiectau sy'n ceisio gwell iechyd a lles pobl drwy gryfhau eu cysylltiad â byd natur.

# Pwy all wneud cais?

Mae'r gronfa'n agored i geisiadau partneriaeth gan sefydliadau.

Dylid datblygu ceisiadau gan bartneriaeth/consortiwm o sefydliadau ac artistiaid. Rhaid iddynt gynnwys partner iechyd a chelfyddydol. Rhaid i un o'r partneriaid gymryd yr awenau fel y prif ymgeisydd a gweithredu fel y corff atebol.

Dylech weld a yw eich sefydliad arweiniol yn gymwys drwy edrych ar ein canllawiau 'Arian y Loteri Genedlaethol: beth sydd angen ichi ei wybod wrth ymgeisio' a'n tudalen 'Cymhwysedd – Sefydliadau' cyn dechrau ymgeisio. Sylwch mai dim ond i'n rhaglenni Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau y gall ysgolion wneud cais.

Gallai partner iechyd fod yn fwrdd iechyd/Ymddiriedolaeth GIG/clwstwr/sefydliad meddygon teulu sy'n darparu gofal cymdeithasol. Hefyd gallai fod yn sefydliad trydydd sector y mae ei waith yn canolbwyntio ar iechyd a lles – er enghraifft MIND neu gymdeithas dai sy'n ceisio gwella lles ei thrigolion.

Os nad ydych chi'n siŵr a fyddai eich partner yn cael ei gydnabod fel partner iechyd, trafodwch hyn gyda ni cyn dechrau ar eich cais.

## Prosiectau Iechyd a Natur Greadigol

### (mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r Bartneriaeth Natur Greadigol)

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod pobl sydd â lefelau uchel o gyswllt â byd natur yn fwy tebygol o helpu byd natur a chymryd camau i'w warchod. Mae perthynas hefyd rhwng cysylltiad cryfach â byd natur a gwell lles. Yn y rhaglen waith hon, rydyn ni'n awyddus i gefnogi prosiectau sydd â dau nod, sef gwella cysylltiad pobl â byd natur ar y naill law, ac ar y llall, gwella iechyd neu les pobl drwy'r celfyddydau, ac yn enwedig pobl o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Rhaid i brosiectau Iechyd a Natur Greadigol ateb holl feini prawf cyffredinol y gronfa Celfyddydau, Iechyd a Lles. At hynny, rhaid iddynt gael partner o fyd natur, yn ogystal â phartneriaid o'r meysydd iechyd a chelfyddydau. Gallai'r partner hwn fod yn elusen, yn asiantaeth neu'n gorff cyhoeddus o'r sector amgylchedd, yn sefydliad sy'n cynnal mannau awyr agored sydd ar agor i'r cyhoedd (fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), neu'n sefydliadau sy'n ymgyrchu ym maes cyfiawnder hinsawdd.

# Am faint allwch chi ymgeisio?

Gwahoddir ceisiadau ar dair lefel ariannu:

1. **Grantiau 'paratoi'r seiliau a phrofi'** (gwerth rhwng £500 a £15,000 ac yn gofyn am 10% o arian cyfatebol) i helpu i ddatblygu partneriaethau a syniadau newydd mewn cyd-destunau sy'n ymwneud ag iechyd a'r celfyddydau. Gallwch ddefnyddio'r arian hwn i greu partneriaethau, i feithrin dealltwriaeth o her iechyd, ac yna i brofi a gwerthuso syniadau newydd.
2. **Grantiau 'buddsoddi'** (gwerth £15,001 – £35,000 ac yn gofyn am 25% o arian cyfatebol) i gyflwyno a gwerthuso syniad rydych chi eisoes wedi'i brofi gyda phartneriaeth sydd wedi'i sefydlu'n barod ac sydd wedi cydweithio i ddatblygu a phrofi'r syniad cyn ei roi ar waith.
3. **Grantiau 'graddfa'** (hyd at £50,000 ac yn gofyn am 40% o arian cyfatebol) i archwilio a phrofi sut gellid addasu prosiect neu fodel llwyddiannus er mwyn ei gyflwyno a'i gynnal mewn ardaloedd neu leoliadau newydd, ar gyfer heriau iechyd newydd, neu ar ffurf partneriaethau newydd. Mewn achosion eithriadol, pan fydd rhaglen yn barod i gynyddu'i maint yn fwy sylweddol, neu'n para dros nifer o flynyddoedd, gellid ystyried ceisiadau sy'n uwch na'r uchafswm o £50,000. Trafodwch â ni os ydych chi'n credu bod gennych chi raglen sydd wedi cyrraedd y cam hwn.
4. **Hyfforddiant** – gall sefydliadau hefyd wneud cais am gyllid i ddylunio a darparu hyfforddiant sy'n ymwneud ag iechyd a'r celfyddydau mewn meysydd sy'n flaenoriaeth. Gan amlaf, rydym yn disgwyl na ddylai sefydliadau gael mwy nag un grant 'byw' ar unrhyw adeg. Serch hynny, gall sefydliadau wneud cais i ddarparu hyfforddiant yn ogystal â darparu prosiect Celfyddydau, Iechyd a Lles yn yr un flwyddyn.

**Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn rhoi rhagor o ganllawiau am y camau hyn mewn prosiectau.**

Mae dyddiadau cau penodol i ymgeisio am y gronfa yma, sydd ar gael er ein gwefan.

Os gwnewch gais am £50,000 neu lai (gan gynnwys costau hygyrchedd ychwanegol), ceisiwn gael y penderfyniad ichi mewn 8 wythnos o'r dyddiad cau.

Os gwnewch gais am £50,000 neu ragor (gan gynnwys costau hygyrchedd ychwanegol) cewch benderfyniad mewn 12 wythnos o'r dyddiad cau.

## Pa gam y mae'ch prosiect wedi'i gyrraedd?

| Cam | Rydych chi wedi cyrraedd y cam hwn os yw'r canlynol yn berthnasol: | Paramedrau ariannu | Nodau ariannu | Y gweithgareddau rydyn ni'n disgwyl eu hariannu yn y cam hwn |
|---|---|---|---|---|
| **Paratoi'r seiliau a phrofi** | • Nid yw'r prosiect yn bodoli ac nid ydych chi wedi profi syniadau eto.<br>• Mae her iechyd amlwg rydych chi am ei harchwilio ymhellach.<br>• Mae ymrwymiad cyfartal gan bartneriaid yn y sectorau celfyddydau ac iechyd (a byd natur) i brofi a dysgu sut gellid mynd i'r afael â'r her hon drwy'r celfyddydau. | £5,000 (paratoi'r seiliau)<br>+<br>£10,000 (profi, i'w ryddhau pan fydd y gwaith paratoi'r seiliau wedi'i gwblhau)<br>Cyllid cyfatebol o'r sector iechyd: >10% (gallai fod ar ffurf amser y staff) | 1. Creu partneriaeth ymrwymedig.<br>2. Meithrin dealltwriaeth drylwyr o'r her iechyd a gosod amcanion clir ar gyfer y newid rydych chi eisiau'i weld.<br>3. Profi syniadau celfyddydol a dysgu drwy lwyddiant, methiant neu ailadrodd. | **Paratoi'r seiliau**<br>• Cyfarfodydd rhwng partneriaid yn y sectorau celfyddydau ac iechyd (a byd natur), er mwyn meithrin perthnasau, archwilio'r her iechyd a llwybrau atgyfeirio*, a gosod nodau.<br>• Ymchwilio i astudiaethau achos neu astudiaethau academaidd o brosiectau eraill sydd wedi defnyddio'r celfyddydau i fynd i'r afael â'r her iechyd hon.<br>• Cleifion a'r cyhoedd i fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio'r prosiect.<br>**Test**<br>• Cyfarfodydd rhwng partneriaid yn y sectorau celfyddydau ac iechyd (a byd natur), er mwyn meithrin perthnasau, archwilio'r her iechyd a llwybrau atgyfeirio*, a gosod nodau.<br>• Ymchwilio i astudiaethau achos neu astudiaethau academaidd o brosiectau eraill sydd wedi defnyddio'r celfyddydau i fynd i'r afael â'r her iechyd hon.<br>• Cleifion a'r cyhoedd i fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio'r prosiect. |

* Y llwybr atgyfeirio yw sut y bydd partneriaid iechyd yn cyfeirio pobl at eich prosiect neu'n helpu pobl i gymryd rhan ynddo, drwy eu hatgyfeirio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

| Cam | Rydych chi wedi cyrraedd y cam hwn os yw'r canlynol yn berthnasol: | Paramedrau ariannu | Nodau ariannu | Y gweithgareddau rydyn ni'n disgwyl eu hariannu yn y cam hwn |
|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddi** | • Fel partneriaeth, rydych chi eisoes wedi profi a gwerthuso'r syniad hwn ac mae'n dangos potensial i fynd i'r afael â'r her iechyd a ganfuwyd.<br>• Rydych chi'n deall sut a pham y bydd eich gweithgaredd yn arwain at y newid rydych chi eisiau'i weld.<br>• Mae gennych chi lwybrau atgyfeirio clir* at y prosiect.<br>• Rydych chi'n ceisio cyrraedd mwy o bobl nag y gwnaethoch chi yn ystod y cam profi. | £15,001-£35,000<br><br>Cyllid cyfatebol disgwyliedig gan bartneriaid yn y sector iechyd >25% | 1. Darparu a mesur effeithiau a chanlyniadau.<br>2. Casglu a rhannu stori eich prosiect.<br>3. Creu adnoddau i wreiddio eich prosiect yn y tymor hir. | • Costau comisiynu artistiaid i roi'r prosiect ar waith.<br>• Costau cyflawni eraill.<br>• Gwerthusiad llawn.<br>• Cyfathrebu: fideos, deunyddiau ysgrifenedig, creu cynnwys i rannu stori eich prosiect.<br>• Cynllunio i sicrhau cynaliadwyedd.<br>• Creu incwm yn y dyfodol. |
| **Graddfa** | • Mae'r prosiect wedi profi mewn un lle ei fod yn gallu cael ei roi ar waith yn llwyddiannus a chael effaith.<br>• Rydych chi nawr eisiau archwilio a phrofi sut gellid addasu prosiect neu fodel llwyddiannus er mwyn ei gyflwyno a'i gynnal mewn ardaloedd neu leoliadau newydd, ar gyfer heriau iechyd newydd, neu ar ffurf partneriaethau newydd. | Hyd at £50,000 (mewn achosion eithriadol gallem ystyried mwy)<br><br>Cyllid cyfatebol gan bartneriaid yn y sector iechyd > 40% | 1. Creu partneriaethau mewn llefydd newydd.<br>2. Addasu nodau ar gyfer lleoliadau a phartneriaid newydd.<br>3. Parhau i ddysgu am ffyrdd o weithio a'u mireinio. | • Cyfarfodydd â phartneriaid newydd i archwilio'r her iechyd/gosod nodau mewn llefydd newydd.<br>• Mapio'r her iechyd a llwybrau mewn llefydd newydd.<br>• Hyfforddi sefydliadau neu dimau eraill i ddarparu prosiect tebyg mewn llefydd newydd.<br>• Costau comisiynu artistiaid i brofi'r prosiect mewn llefydd newydd.<br>• Gwerthuso'r broses o gynyddu'r maint.<br>• Cynllunio parhaus i sicrhau cynaliadwyedd a chodi arian. |

* Y llwybr atgyfeirio yw sut y bydd partneriaid iechyd yn cyfeirio pobl at eich prosiect neu'n helpu pobl i gymryd rhan ynddo, drwy eu hatgyfeirio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

# Beth yw'r meini prawf?

**Dyma'r meini prawf asesu ceisiadau:**

- Cryfder y syniad a'r gweithgarwch creadigol a'i botensial i sicrhau manteision iechyd a lles i'r cyfranogwyr.
- Perthnasedd yr her iechyd, er enghraifft o ran blaenoriaethau ein rhaglen, Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd, blaenoriaethau iechyd Llywodraeth Cymru (Cymru Iachach).
- Safon a hygrededd y bartneriaeth.
- Hanes y tîm.
- Cryfder y cydweithio a'r gwerthuso (yn fewnol neu'n annibynnol).
- Potensial i gyfrannu at ddysgu/ymchwil neu adeiladu ar y dystiolaeth bresennol.
- Potensial i'r prosiect gael ei dyfu/gynnal.
- Manteision i'r Celfyddydau ac Iechyd ehangach.
- Cynllun, swyddogaethau a chyfrifoldebau clir a chyllideb realistig.

## Gwerthuso

Rhaid i'r rhai sy'n cael grant lenwi Adroddiad Diweddu ar ôl y prosiect. Rydym ni am rannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect â'r sector a phartneriaid rhyngwladol.

Rydym ni'n gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith i ddefnyddio ei dempled astudiaeth achos yn yr Adroddiad Diweddu. Byddwch chi wedyn yn cynhyrchu astudiaeth achos o'ch prosiect y gallwch ei uwchlwytho i fanc astudiaethau achos ar-lein y Rhwydwaith.

Bydd hyn yn ymestyn dysgu ar draws y sector. Bydd yr astudiaeth achos hefyd yn hyrwyddo manteision y celfyddydol ac iechyd. Lle mae gan raglenni bartner ymchwil, byddem ni'n croesawu cyflwyno adroddiad gwerthuso/ymchwil gyda'ch Adroddiad Diweddu.

# Pa gwestiynau fydd?

**Rydych chi'n barod i ddechrau ar eich cais. Dyma'r cwestiynau. Nodwch – mae uchafswm nodau ar rhai cwestiynau, sy'n cynnwys bylchau.**

1. Gwiriadau cyn ymgeisio

   Gwybodaeth ragarweiniol a rhestr wirio cyn ymgeisio.

2. Cysylltu â chi

   Gwybodaeth gyswllt ar gyfer y rhai sy'n gwneud y cais gan gynnwys eich dewisiadau iaith a gwybodaeth am eich cyfrif banc.

3. Am eich prosiect

   Prif wybodaeth am eich prosiect, gan gynnwys ei deitl, ei ddyddiad dechrau a gorffen a gwybodaeth gyllidebol gan gynnwys costau hygyrchedd.

4. Cynnig y prosiect

   Disgrifiwch eich gweithgarwch.

   a. Pa un o'r blaenoriaethau canlynol y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â hi? (Gallwch ddewis rhagor nag un.)
      - Iechyd Meddwl a Lles
      - Iechyd a Lles Corfforol
      - Anghydraddoldeb Iechyd
      - Lles Staff (yn y GIG/ Gofal Cymdeithasol/y Celfyddydau)
      - Iechyd a Natur Greadigol

   b. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio cam eich prosiect orau o ran ei ddatblygiad? (Rhaid dewis un)
      - Paratoi'r seiliau a phrofi
      - Buddsoddi (prosiect sy'n bodoli eisoes yw hwn sydd wedi'i brofi'n llwyddiannus ac sy'n barod ar gyfer ei ddatblygu ymhellach)
      - Graddfa (rydyn ni eisiau cynyddu maint syniad sydd wedi'i brofi i gyrraedd rhagor o bobl)

   c. Crynodeb byr o'ch prosiect. (Efallai y defnyddiwn y crynodeb yn ein cyhoeddusrwydd.)

## 5. Eich partneriaeth

a. Pwy yw eich partneriaid? Rhestrwch nhw yn y ffurflen gais a nodwch beth fydd eu rhan yn y prosiect. (Rhaid cael o leiaf un partner celfyddydol ac un iechyd/gofal cymdeithasol i'r prosiect. Hefyd, mae angen o leiaf un partner o fyd natur mewn prosiectau Iechyd a Natur Greadigol).

b. Rydym ni am ariannu partneriaethau cryf a chyfartal rhwng sefydliadau iechyd a chelfyddydau (a sefydliadau byd natur). Disgrifiwch eich partneriaeth – pryd y cafodd ei sefydlu a pham a beth yw natur eich perthynas waith.

## 6. Her iechyd

Pa her iechyd ydych chi am ei harchwilio? Pa brofiad gwahanol y mae gan eich partneriaid i'w gyflwyno i'r prosiect?

## 7. Eich prosiect

Beth rydych chi am ei wneud? Byddwch mor glir â phosibl am y gweithgarwch. Pam rydych chi eisiau ei wneud? Pa artistiaid fydd yn cymryd rhan? Ble fydd y gweithgarwch yn digwydd? Pwy fydd yn elwa? Sut bydd cyfranogwyr yn cael eu recriwtio neu'n dod o hyd i'ch prosiect?

## 8. Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant

Rydym ni am gefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. Rydym ni am gefnogi prosiectau â'r nod o ddod â manteision iechyd a lles i grwpiau mwy amrywiol o bobl drwy'r celfyddydau.

Mae hyn yn cynnwys pobl Fyddar ac anabl, pobl niwroamrywiol a phobl ethnig a diwylliannol amrywiol, yn ogystal â phobl o gymunedau tlawd.

Rhaid egluro sut y bydd eich prosiect yn cynnwys cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â'r celfyddydau. Rydym ni hefyd am glywed sut y byddwch chi'n monitro amrywiaeth a chynhwysiant.

## 9. Eich effaith

Rhaid nodi eich targedau o ran y cyfranogwyr.

10. Dysgu a gwerthuso

Tystiolaeth sy'n llywio iechyd, felly mae gwerthuso'n bwysig. Rydym ni am gefnogi prosiectau sy'n cynnwys dysgu o'r cychwyn. Yma nodwch sut byddwch chi'n gwerthuso eich prosiect.

Dylech ateb y cwestiynau yma:

- Pwy fydd yn arwain wrth werthuso eich prosiect?
- Beth yw'r dystiolaeth bresennol am y gwaith?
- Beth rydych chi am gael gwybod drwy'r prosiect? Beth yw'r cwestiynau rydych chi'n gobeithio eu hateb?
- Sut byddwch yn monitro a mesur eich effaith?
- Sut bydd eich gwaith yn cyfrannu at ddysgu ehangach yn y sector?

11. Beth yw eich gobeithion am y prosiect y tu hwnt i gyfnod y grant?

Sut rydych chi'n gweld y prosiect yn cael ei ddatblygu a/i gynnal ymhellach?

12. Celfyddyd

Pa gelfyddydau fydd yn rhan o'ch prosiect?

13. Math o weithgarwch

Pa fath o weithgarwch a fydd yn rhan o'ch prosiect?

14. Targedau

Rhowch wybod am eich targedau, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai, a chynulleidfaoedd/mynychwyr.

15. Iaith

Pa effaith caiff y prosiect ar y Gymraeg? Cadarnhaol, negyddol neu niwtral?

16. Lleoliad

Ble caiff eich prosiect ei gynnal?

17. Cydraddoldeb

Rhowch wybod am sut y byddwch chi'n monitro cydraddoldeb.

## Dogfennau ategol

I geisiadau dros £10,000, gallwch hefyd gyflwyno un ddogfen ategol nad yw'n fwy na 5 tudalen A4 mewn ffont sy'n 12 pwynt neu fwy.

# Cymorth a chyngor

Rydym ni'n hapus i drafod eich prosiect a'ch helpu i'w ddatblygu. E-bostiwch ni: ycelfyddydauaciechyd@celf.cymru i gael rhagor o wybodaeth neu i gael sgwrs.

Gallwch hefyd gysylltu â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bost: grantiau@celf.cymru neu ein gwefan neu'r cyfryngau cymdeithasol.

Gwnawn ein gorau i ymateb i bob ymholiad mor fuan ag y gallwn. Os ydych chi am inni eich ffonio'n ôl, gadewch eich rhif.

## Ffyrdd eraill o gysylltu â ni:

- Ffoniwch: 03301 242733 (codir pob galwad am gyfraddau lleol)
- Oriau: 9am-5pm dydd Llun-dydd Iau, 9am-4.30pm dydd Gwener
- Gwefan: celf.cymru
- Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales
- Trydar: @Arts_Wales_
- Instagram: celfcymruarts